# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr - Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 10 Ionawr 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 41(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### Cwestiwn Brys

**I'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon:**

**Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn):** A wnaiff Ysgrifennydd y Cabinet ddatganiad ynghylch y sylwadau a wnaeth y Coleg Brenhinol Meddygaeth Frys fod gofal brys yng Nghymru mewn argyfwng?

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Ymgynghoriad ynghylch Cynllun Gweithredu Strategol Drafft ar gyfer Dementia yng Nghymru

(45 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Ffliw Adar

(30 munud)

**Dogfen Ategol:**

Llythyr i Aelodau'r Cynulliad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig

## 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon: Y Gronfa Triniaethau Newydd

(45 munud)

## 6 Dadl: Cyllideb Derfynol 2017-18

(60 munud)

**NDM6192** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 20.25:

Yn cymeradwyo'r Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-2018 a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno gan y Gweinidog dros Gyllid a Llywodraeth Leol ar 20 Rhagfyr 2016.

*Troednodyn:*

*Yn unol â darpariaethau perthnasol Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Rheol Sefydlog 20.28, mae'r Gyllideb Flynyddol yn cynnwys y wybodaeth ganlynol:*

*1. y datganiad ysgrifenedig sy'n ofynnol o dan adran 125(3) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006;*

*2. yr adnoddau y cytunodd y Trysorlys arnynt ar gyfer cyllideb bloc Cymru am y flwyddyn ariannol y mae'r cynnig yn ymwneud â hi;*

*3. cysoni rhwng yr adnoddau a ddyrannwyd i gyllideb bloc Cymru gan y Trysorlys a'r adnoddau i'w hawdurdodi i'w defnyddio yn y cynnig;*

*4. cysoni rhwng yr amcangyfrif o'r symiau i'w talu i Gronfa Gyfunol Cymru gan yr Ysgrifennydd Gwladol a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o'r Gronfa yn y cynnig; a*

*5. cysoni rhwng yr adnoddau i'w hawdurdodi o dan adran 125(1)(a) a (b) o'r Ddeddf a'r symiau i'w hawdurdodi ar gyfer talu allan o Gronfa Gyfunol Cymru o dan adran 125(1)(c).*

*Darparwyd y wybodaeth atodol ganlynol i'r Aelodau:*

*• Nodyn Esboniadol ar y newidiadau rhwng cynigion y Gyllideb Ddrafft a'r Gyllideb Flynyddol.*

**Dogfennau Ategol**
Gyllideb Flynyddol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2017-2018
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid

## 7 Dadl: Egwyddorion cyffredinol y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

(60 munud)

**NDM6193** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 26.11:

Yn cytuno i egwyddorion cyffredinol Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru).

Gosodwyd Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) a'r Memorandwm Esboniadol gerbron y Cynulliad ar 12 Medi 2016.

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor Cyllid ar Fil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) gerbron y Cynulliad ar 20 Rhagfyr 2016.

**Dogfennau Ategol**
Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)
Memorandwm Esboniadol
Adroddiad y Pwyllgor Cyllid
Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

## 8 Dadl ar y Penderfyniad Ariannol ynghylch y Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru)

(5 munud)

**NDM6194** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, at ddibenion unrhyw ddarpariaethau sy'n deillio o'r Bil Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru), yn cytuno i unrhyw gynnydd mewn gwariant o'r math y cyfeiriwyd ato yn Rheol Sefydlog 26.69 sy'n codi o ganlyniad i'r Bil.

## 9 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 11 Ionawr 2017

# Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 5 Ionawr 2017
# i'w hateb ar 10 Ionawr 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi'i gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. David Rees (Aberafan): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu ei gynigion ar gyfer cefnogi twf economaidd yn ystod 2017 yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0350(FM)

2. Lynne Neagle (Torfaen): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am flaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc yn Nhorfaen? OAQ(5)0355(FM)

3. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am bwysigrwydd datblygu economaidd rhanbarthol er mwyn cyrraedd targed y Llywodraeth o filiwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050? OAQ(5)0352(FM)**W**

4. Huw Irranca-Davies (Ogwr): Pa drafodaethau diweddar y mae'r Prif Weinidog wedi'u cael ag Ysgrifenyddion y Cabinet ynghylch adroddiad Pwyllgor Amgylchedd a Chynaliadwyedd y Pedwerydd Cynulliad, 'Dyfodol Ynni Craffach i Gymru'? OAQ(5)0347(FM)

5. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarpariaeth gofal sylfaenol? OAQ(5)0345(FM)

6. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i annog defnyddwyr Cymru i brynu nwyddau a gwasanaethau o Gymru? OAQ(5)0357(FM)

7. Joyce Watson (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am yr achosion o ffliw adar yng Nghymru? OAQ(5)0351(FM)

8. Mohammad Asghar (Dwyrain De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwella gwasanaethau iechyd yn 2017? OAQ(5)0348(FM)

9. Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog egluro pa gefnogaeth y bydd Llywodraeth Cymru yn ei rhoi i gyn-filwyr a'u teuluoedd yn 2017? OAQ(5)0360(FM)

10. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gytundeb sydd rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU parthed fframwaith amaeth-amgylcheddol ar ôl ymadael a’r Undeb Ewropeaidd? OAQ(5)0359(FM)**W**

11. **Mark Isherwood (Gogledd Cymru):** Sut y mae Llywodraeth Cymru yn helpu pobl sy'n byw mewn tlodi tanwydd yng Nghymru? OAQ(5)0353(FM)

12. **Bethan Jenkins (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am fenter New Sandfields Afan? OAQ(5)0349(FM)

13. Gareth Bennett (Canol De Cymru): Pa drafodaethau y mae Llywodraeth Cymru wedi'u cael â Llywodraeth y DU ynghylch polisïau a rheolau mewnfudo ar gyfer Cymru? OAQ(5)0364(FM)

14. **Suzy Davies (Gorllewin De Cymru):** A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am gyfraniad ariannol Llywodraeth Cymru i'r seilwaith ffyrdd yng Ngorllewin De Cymru? OAQ(5)0354(FM)

15. Caroline Jones (Gorllewin De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu cynlluniau Llywodraeth Cymru ar gyfer gwelliannau i'r seilwaith trafnidiaeth yng Ngorllewin De Cymru yn ystod 2017? OAQ(5)0363(FM)

Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

Cyhoeddir agenda'r Cyfarfod Llawn wythnos cyn pob cyfarfod, a gellir ei gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn

---

Dydd Mawrth 17 Ionawr 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Fframwaith Cyllidol (45 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cymru (90 munud)
- Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2017 (15 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil Cyflenwadau Meddygol (Costau) y Gwasanaeth Iechyd (15 munud)
- Dadl: Setliad Llywodraeth Leol 2017-18 (60 munud)

Dydd Mercher 18 Ionawr 2017

Busnes y Llywodraeth

- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol: Y Bil Undebau Llafur (Cymru) (60 munud)

Busnes y Cynulliad

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (120 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Dadl Fer - Julie Morgan (Gogledd Caerdydd) (30 munud)

**Dydd Mawrth 24 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Gweithio Gyda'n Gilydd i Greu Cymunedau Mwy Diogel (30 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar Fil yr Economi Ddigidol (15 munud)
- Dadl: Yr Adroddiad Blynyddol am Gydraddoldeb 2015-16, gan gynnwys Adroddiad Interim Gweinidogion Cymru am Gydraddoldeb 2016 (60 munud)
- Dadl: Gweithio gyda chymunedau i greu amgylcheddau lleol gwell (60 munud)

**Dydd Mercher 25 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: ymchwiliadau a gwaith ymgysylltu ar gyfer y dyfodol (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - Russell George (Sir Drefaldwyn) (30 munud)

**Dydd Mawrth 31 Ionawr 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Rheoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Ffioedd Cofrestru) 2017 (15 munud)
- Rheoliadau Safonau’r Gymraeg (Rhif 6) 2017 (15 munud)
- Dadl: Trais yn erbyn menywod a cham-drin domestig (60 munud)

**Dydd Mercher 1 Chwefror 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Iechyd, Gofal Cymdeithasol a Chwaraeon ar ei ymchwiliad i barodrwydd ar gyfer y gaeaf 2016/17 (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer – Nick Ramsay (Mynwy) (30 munud)

**Lesley Griffiths AC/AM**
**Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig**
**Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P-LG-8170-16

22 Rhagfyr 2016

Annwyl Aelodau

**CADARNHAU'R FFLIW ADAR MEWN ADERYN GWYLLT YN SIR GÂR**

Rwyf eisoes wedi ysgrifennu atoch am fy mhenderfyniad i ddatgan bod Cymru gyfan yn Barth Atal Ffliw'r Adar sy'n golygu bod yn rhaid cadw dofednod ac adar caeth o dan do ac imi wedyn gyhoeddi gwaharddiad dros dro ar grynhoi dofednod.

Rwyf am eich hysbysu nawr bod Prif Swyddog Milfeddygol Cymru wedi cadarnhau bod straen H5N8 Pathogenig Iawn Ffliw'r Adar wedi'i gael mewn chwiwell (math o hwyaden wyllt) yn Llanelli, Sir Gaerfyrddin.

Dyma'r un straen o'r clefyd a gafwyd ar fferm dyrcwn yn Lincolnshire ddydd Gwener (16 Rhagfyr) ac mewn adar domestig, gwyllt a chaeth yn Ewrop, y Dwyrain Canol a Gogledd Affrica.

Cafwyd hyd i'r chwiwell yn farw a chafodd profion eu cynnal arni. Cafwyd cadarnhad bore yma bod straen H5N8 Pathogenig Iawn feirws ffliw'r adar arni.

Mae cael hyd i'r clefyd mewn aderyn gwyllt yn dod yn sgil cyhoeddi ar 6 Rhagfyr bod Cymru gyfan yn Barth Atal, sy'n golygu bod pawb sy'n cadw dofednod ac adar caeth eraill yn gorfod cadw eu hadar dan do neu gymryd camau priodol i'w cadw nhw ac adar gwyllt ar wahân a'u hamddiffyn rhag adar gwyllt.

Yn gynharach yr wythnos hon, cymerwyd camau pellach i amddiffyn dofednod ac adar caeth trwy gyhoeddi gwaharddiad dros dro ar grynhoi dofednod.

Mae bioddiogelwch yn fater na ddylem gyfaddawdu arno byth. Hyd yn oed os ydy'r adar dan do, mae'r perygl o'u heintio'n dal yn fyw a dylai ceidwaid dofednod ac adar caeth eraill wneud popeth yn eu gallu i'w rhwystro rhag dod i gysylltiad ag adar gwyllt. Dylid osgoi symud dofednod a dylid wastad diheintio dillad ac offer.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Nid oes adroddiadau wedi dod i'n clyw bod pobl wedi cael eu heintio gan straen H5N8 ac ychydig iawn o berygl sydd i iechyd pobl.  Mae'r Asiantaeth Safonau Bwyd wedi cadarnhau hefyd ei bod yn sâff bwyta cig dofednod fel tyrcwn, gwyddau ac ieir.

Rwy'n pwyso ar geidwaid dofednod, gan gynnwys y rheini sydd â llai na 50 o adar, i roi manylion eu heidiau i'r Gofrestr Dofednod.  Drwy wneud, byddwn yn gallu cysylltu â nhw ar unwaith pe bai'r clefyd yn taro er mwyn iddyn nhw allu cymryd y camau angenrheidiol yn syth i ddiogelu'u hadar."

Cewch fwy o wybodaeth, gan gynnwys y mesurau sy'n gysylltiedig â Pharth Atal Ffliw'r Adar, ar wefan Llywodraeth Cymru yma.



**Lesley Griffiths AC/AM**
Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig
Cabinet Secretary for Environment and Rural Affairs